# Cymru Fyd-eang

## Beth yw Cymru Fyd-eang?

Mae Cymru Fyd-eang yn cymryd ymagwedd **gydweithredol** at addysg bellach ac uwch ryngwladol. Mae'n dod â phrifysgolion ac, yn fwy diweddar, colegau at ei gilydd i gynyddu eu proffil yn rhyngwladol, gan gynorthwyo'r sector i recriwtio'n rhyngwladol yn ogystal â datblygu cydweithrediad ym meysydd addysg ac ymchwil gyda phartneriaid tramor.

Amcanion:

- **Cynyddu niferoedd myfyrwyr rhyngwladol** o farchnadoedd blaenoriaeth a nodwyd
- Cynnal a **meithrin partneriaethau rhyngwladol**
- **Cynyddu ymwybyddiaeth ac enw da** prifysgolion a cholegau Cymru yn rhyngwladol
- Cynhyrchu **enillion allforio** ychwanegol ar gyfer Gymru

Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, mae Cymru Fyd-eang wedi cyflwyno'r ceinciau craidd canlynol:

- **Astudio yng Nghymru** – brand unedig wedi'i alinio'n strategol â Brand Cymru Llywodraeth Cymru i hyrwyddo sefydliadau Cymreig yn fyd-eang trwy ymgyrchoedd marchnata digidol, cyfathrebiadau a digwyddiadau.
- **Datblygu'r farchnad** – darparu cyllid i gefnogi dirprwyaethau, ymweliadau, gweithgarwch recriwtio cydweithredol, a datblygu perthnasoedd â sefydliadau partner yn rhyngwladol.
- **Ysgoloriaethau** – yn bennaf ar lefel ôl-raddedig, a ddarperir yn uniongyrchol ac mewn partneriaeth â darparwyr ysgoloriaethau eraill.
- **Ariannu partneriaethau** – cyllid sbarduno i gynorthwyo prifysgolion a cholegau i ddatblygu partneriaethau tramor (ymchwil neu addysgiadol).

## Sut mae Cymru Fyd-eang yn cael ei ariannu?

Mae cyllid ar gyfer Cymru Fyd-eang 2022-2025 (Cymru Fyd-eang 3) yn cael ei sianelu i Brifysgolion Cymru gan Lywodraeth Cymru drwy raglen Taith. Cyrhaeddodd y cyllido hwn uchafbwynt o £2.4M yn y flwyddyn academaidd 2022-2023. Mae'r rhaglen ar hyn o bryd yn gweithredu ar gyllideb o £1.3m hyd at fis Mawrth 2025, a disgwylir i'r cyllid ddod i ben ym mis Gorffennaf 2025 o ganlyniad i doriadau i Taith. Cyllidwyd Cymru Fyd-eang yn flaenorol gan CCAUC.

## Pwy sy'n cynnal y rhaglen?

Mae cyflwyno rhaglen Cymru Fyd-eang 3 yn cael ei reoli gan sefydliad Prifysgolion Cymru. Fel yr endid cyfreithiol atebol, mae sefydliad Prifysgolion y DU yn gyfrifol am oruchwylio sut y caiff y cyllid ei weinyddu. Mae Pwyllgor Prifysgolion Cymru (Is-gangellorion a Chyfarwyddwr y Brifysgol Agored yng Nghymru) yn gweithredu fel Bwrdd y Rhaglen gyda chyfrifoldeb am awdurdodi a chymeradwyo ei gynlluniau gweithredol, monitro ac adrodd.

**Beth yw Partneriaeth Cymru Fyd-eang?**

Dan arweiniad Prifysgolion Cymru gyda chefnogaeth ei haelodaeth, sefydlwyd partneriaeth Cymru Fyd-eang yn 2015. Mae'n bartneriaeth anffurfiol o sefydliadau sy'n cefnogi addysg ryngwladol yng Nghymru. Yr aelodau gwreiddiol a sefydlodd y bartneriaeth oedd Prifysgolion Cymru, Llywodraeth Cymru, Cyngor Prydeinig Cymru a CCAUC. Mae Bwrdd Cymru Fyd-eang yn fforwm cynghori ar gyfer rhannu adnoddau ac arbenigedd i gefnogi nodau a rhaglenni'r bartneriaeth. Mae hefyd yn gwasanaethu fel bwrdd cynghori ar gyfer rhaglen Cymru Fyd-eang 3, ac yn rhinwedd y rôl honno tyfodd yn 2022 i gynnwys Colegau Cymru, gan adlewyrchu integreiddio addysg bellach yn y rhaglen.

**Beth mae Cymru Fyd-eang wedi'i gyflawni?**

Ers i ymgyrchoedd ddechrau yn 2019, mae Astudio yng Nghymru wedi cynnal 43 o ymgyrchoedd marchnata cyrchfan ar draws India, UDA, Fietnam, Ffrainc, yr Almaen, Iwerddon a Lloegr. Mae hysbysebion Astudio yng Nghymru wedi cael eu **gweld 960 miliwn o weithiau** gan ddarpar fyfyrwyr a dylanwadwyr, gyda thros **11 miliwn o gliciau i wefan Astudio yng Nghymru** a bron i **1.3 miliwn o ymweliadau â thudalennau gwe prifysgolion Cymru**. Mae ymchwil i olrhain brand Astudio yng Nghymru wedi dangos bod ymwybyddiaeth o'r brand ym mis Mai 2023 wedi dangos cynnydd calonogol:

**Yn Ymwybodol o frand Astudio yng Nghymru 2022 2023**
India 16% 62%
UDA 9% 37%
Yr Almaen 14% 47%
Ffrainc 14% 30%

Yn y cyfnod hwn, mae Cymru Fyd-eang hefyd wedi dyrannu **165 o grantiau** i ariannu mentrau partneriaeth ryngwladol sy'n galluogi ystod o weithgarwch cydweithredol, o adeiladu rhwydweithiau ymchwil i feithrin gallu ac archwilio partneriaethau addysg trawswladol.

Ers cychwyn Cymru Fyd-eang 3 (2022):

- Mae'r prosiect wedi cyflawni **181 o weithgareddau** ar ran y sector, gan gynnwys digwyddiadau, dirprwyaethau ac ymweliadau â Chymru sy'n cynnwys dros **66,000 o gyfranogwyr allanol**, ymgysylltu'n uniongyrchol â bron i **2200 o ddylanwadwyr recriwtio** – gyda chyfranogiad gweithredol o sector AU/AB Cymru **355 o weithiau.**
- Mae perthnasoedd strategol wedi'u meithrin gyda Phrifysgolion Canada, Colegau ac Athrofeydd Canada, Y Weinyddiaeth Addysg a Hyfforddiant, Fietnam, a'r Cynghorau Addysg Uwch ar gyfer Telangana a Karnataka (India), T-Hub (Hyderabad - canolfan arloesedd mwyaf y byd), a Sefydliad Ymchwil Fflandrys (FWO).
- Mae Cymru Fyd-eang wedi cyrraedd **rownd derfynol Gwobrau PIE ddwywaith** am ragoriaeth mewn marchnata addysg ryngwladol, gan gynnwys am weithgarwch

cydweithredol gyda changen Ryngwladol Llywodraeth Cymru; y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO) ac eraill i hyrwyddo'r sector yn India.

- Mae Cymru Fyd-eang yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru yn UDA i ffurfio **cynnig mewnfuddsoddiad strategol** o gwmpas **cynhyrchu lled-ddargludyddion**, gyda chyllid cyfatebol disgwyliedig gan

  Oak Ridge Assiociated Universities, Gwasanaethau Masnachol yr UD a sawl prifysgol proffil uchel yn yr UD.
- Mae oddeutu **3,600 o fyfyrwyr rhyngwladol** wedi gwneud cais am y **95 o ysgoloriaethau** a ddyfernir neu a gefnogir gan Gymru Fyd-eang

**Pam mae hyn yn bwysig?**

**1. Mae myfyrwyr rhyngwladol yn hanfodol i sector ffyniannus ac o fudd i'r economi**

Yn ogystal â bod yn hanfodol i brifysgolion yn ddiwylliannol ac yn addysgol, mae myfyrwyr rhyngwladol yn rhan hanfodol o'r system gyllido bresennol, gan ddarparu traws-gymhorthdal sylweddol ar gyfer addysgu myfyrwyr domestig ac ymchwil. Wrth gyfrannu'n ariannol, mae myfyrwyr rhyngwladol yn cynhyrchu £1.26 biliwn mewn allforion i economi Cymru.

Mae dibyniaeth ar incwm ffioedd myfyrwyr rhyngwladol wedi cynyddu dros y blynyddoedd oherwydd sawl ffactor:

- **Ffioedd dysgu uwch** - mae myfyrwyr rhyngwladol fel arfer yn talu ffioedd dysgu sylweddol uwch na myfyrwyr domestig
- **Recriwtio anghyfyngedig** - yn wahanol i'r cap ar niferoedd myfyrwyr domestig, nid oes unrhyw gyfyngiadau ar recriwtio myfyrwyr rhyngwladol, gan ganiatáu i brifysgolion gynyddu refeniw trwy'r sianel hon. Rhwng 2018/19 a 2022/23 cynyddodd cyfran yr incwm a dderbyniwyd gan brifysgolion yng Nghymru yn sgil dysgu myfyrwyr rhyngwladol o 13% i 17%.
- **Gostyngiad mewn cyllid domestig** - mae ffioedd dysgu fesul myfyriwr domestig wedi gostwng mewn termau real dros y degawd diwethaf. Ers 2018/19 gostyngodd cyfran yr incwm o ffioedd dysgu domestig o 40% i 35%.
- **Traws-gymhorthdal** - mae incwm gan fyfyrwyr rhyngwladol yn aml yn cefnogi gweithgareddau ymchwil ac yn helpu i gynnal cyrsiau sy'n llai hyfyw yn ariannol ond sy'n bwysig yn academaidd

**2. Mae recriwtio rhyngwladol i Gymru yn hynod ansefydlog ac yn gostwng yn gyflym.**

Roedd 28,705 o fyfyrwyr rhyngwladol wedi cofrestru yng Nghymru yn 2022/23. Ar yr wyneb, mae'n ymddangos bod Cymru'n recriwtio'n llwyddiannus ledled y byd, gan ddenu myfyrwyr o dros 100 o wledydd a thiriogaethau. Fodd bynnag, mae'r penawdau hyn yn cuddio dibyniaethau sylweddol. Mae'n werth nodi y daw 53% o fyfyrwyr rhyngwladol o dair gwlad yn unig: India (24%), Nigeria (16%) a Tsieina (13%), gan adael sefydliadau Cymreig yn agored i risgiau sylweddol, gan gynnwys:

- **Newidiadau daearwleidyddol** - a gall digwyddiadau byd-eang (fel pandemig COVID-19) effeithio'n gyflym ar lif myfyrwyr rhyngwladol
- **Amrywiadau yng ngwerth arian, prisiau nwyddau byd-eang a ffactorau macro-economaidd eraill** sy'n effeithio ar y galw gan fyfyrwyr rhyngwladol
- **Newidiadau mewn polisi domestig** mewn perthynas â mewnfudo

Mae newidiadau i'r system fewnfudo a roddwyd ar waith gan lywodraeth flaenorol y DU – yn benodol cyfyngu ar ddibynyddion – wedi effeithio'n negyddol ar recriwtio ôl-raddedigion i'r DU (prif ffynhonnell myfyrwyr rhyngwladol). Yn ogystal, mae methiant ariannol yn Nigeria ar hyn o bryd wedi gwneud addysg yn y DU yn anfforddiadwy i raddau helaeth i'r farchnad allweddol hon. Mae'r ffactorau hyn gyda'i gilydd wedi gwneud mis Medi 2024 yn heriol iawn i'r sector Cymreig, a fydd yn colli cannoedd o filiynau mewn incwm yn sgil hyn yn unig.

Un wers glir i'r sector yw'r angen i sicrhau mwy o amrywiaeth yn y myfyrwyr rhyngwladol a dderbynnir yn ogystal â pharhau i gydweithio er mwyn hyrwyddo Cymru fel cyrchfan astudio. Dyma fu amcanion Cymru Fyd-eang ers blynyddoedd, ac maent yn feysydd lle gall gynnig cefnogaeth ymarferol, e.e. cynorthwyo Is-Gangellorion yn ddiweddar trwy sefydlu ymgyrch drochi yn India dros yr haf.

## 3. Mae partneriaeth ryngwladol yn allweddol i ymchwil rhagorol ac i arallgyfeirio incwm

Mae addysg drawswladol (TNE) – darpariaeth rhaglenni Cymreig dramor – yn fodd o amrywio'r sylfaen incwm rhyngwladol. Mae gan y rhan fwyaf o brifysgolion Cymru ac o leiaf un coleg AB brofiad o hyn eisoes. Yn wir, yn 2022/2023, roedd dros 33,000 o fyfyrwyr rhyngwladol yn astudio rhaglenni Cymreig y tu allan i Gymru, gan eu galluogi i gael mynediad at ein cyrsiau o ansawdd uchel mewn gwahanol leoliadau, hynny mewn partneriaeth â darparwyr eraill. Ar hyn o bryd, dim ond 3% o incwm rhyngwladol prifysgolion sy'n cael ei greu trwy TNE, a daw 82% ohono yn sgil recriwtio myfyrwyr rhyngwladol i Gymru (daw'r 15% sy'n weddill o grantiau a chontractau ymchwil yr UE/rhyngwladol).

Mae cydweithredu rhyngwladol hefyd yn allweddol i ymchwil rhagorol. Mae cyfranogiad yn rhaglen ymchwil ac arloesi *Horizon Europe*, a gynhelir rhwng 2021 a 2027, wedi bod yn gyfyngedig oherwydd yr oedi gan y DU cyn cysylltu â'r rhaglen, ond prifysgolion Cymru yw'r cyfranogwyr Cymreig mwyaf llwyddiannus o hyd, gan dderbyn tri chwarter y cyllid a ddyrannwyd trwy'r rhaglen hyd yma. Dimensiwn arall a amlygwyd gan adroddiad Llywodraeth Cymru ar ymchwil yng Nghymru a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig (SDGs) yw'r cyfraniad sylweddol a wneir gan ymchwilwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru i'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Roedd effaith yr ymchwil oedd yn ymwneud â Nodau Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Cymru 130% yn uwch na chyfartaledd y byd. Ffactor hollbwysig yn llwyddiant Cymru yw faint mae ymchwilwyr yn cydweithio'n helaeth ar draws ffiniau a sectorau. Dangosodd ymchwil o Gymru'r effaith fwyaf ar y meysydd hynny lle bu

ymchwilwyr o Gymru'n cydweithio ag eraill, waeth beth fo'r ddaearyddiaeth a'r sectorau, gan ddangos canlyniad cynhyrchiol blynyddoedd o rwydweithio rhyngwladol.

Mae sawl her yn bygwth gallu sefydliadau Cymreig i lwyddo ac arloesi wrth symud ymlaen. Ein hanallu i gael mynediad at arian o gronfeydd strwythurol, yn ogystal â'r lefelau isel o gyllid sydd ar gael i gefnogi rhwydweithio ymysg ymchwilwyr ac archwilio partneriaethau addysg trawswladol. Trwy feithrin perthnasoedd strategol ar lefel genedlaethol neu ranbarthol,

mae Cymru Fyd-eang yn gweithredu fel hwylusydd ar gyfer partneriaethau rhyngwladol, ac mae wedi gallu cefnogi datblygiad partneriaethau cynnar gyda chyllid sbarduno.

## 4. Mae Cymru Fyd-eang yn fodel sefydledig ar gyfer cydweithredu traws-sector

Bellach yn agosáu at ei 10fed blwyddyn, mae Cymru Fyd-eang wedi datblygu enw da'r tu allan i Gymru, gan dderbyn enwebiadau ar gyfer gwobrau a gwahoddiadau i siarad yn fyd-eang - ac mae'n destun eiddigedd ymysg cydweithwyr yng ngwledydd eraill y DU. Ar ôl ymgorffori'r sector AB yn 2022, mae gan Gymru Fyd-eang hefyd brofiad o sefydlu dull gweithredu traws-drydyddol. Mae tystebau'n cynnwys:

> *"Yr hyn y mae Cymru Fyd-eang yn ei wneud, ymagwedd Gymru unedig ar ran y sector gan gynnwys partneriaid allweddol yn y Llywodraeth, sefydliadau, y Cyngor Prydeinig. Mewn gwledydd eraill mae'n llawer mwy tameidiog – y dull cyfannol sy'n ein gwahanu ni."*

> *"Darparodd tîm Cymru Fyd-eang gefnogaeth eithriadol i (enw coleg), ac rydym yn hynod fodlon â'u cymorth. Teimlwn yn freintiedig i weithio gyda thîm mor ymroddedig sydd wedi dangos ymrwymiad gwirioneddol i gefnogi ein coleg a hwyluso ein hymdrechion allforio. Credwn fod y ddirprwyaeth wedi bod yn werthfawr iawn, yn wybodus ac yn ymatebol. Rhoddodd fewnwelediad gwerthfawr i Ogledd America, ynghyd â llwyfan ac adnoddau i'n helpu i lywio cymhlethdodau'r rhanbarth, gan gynnwys ymchwil i'r farchnad a chyfleoedd rhwydweithio."*

> *"Mae cael y cydlyniad hwnnw gan Gymru Fyd-eang yn wych. Rydym wedi cael dirprwyaethau'n ymweld â ni sydd wedi'u cynnal ar draws prifysgolion Cymru gan ddod â phobl ynghyd – mae'n annhebygol y byddai Is-gangellorion o India'n dod i (enw'r brifysgol), ond mae dod draw a chael y cyfle i gwrdd â holl brifysgolion Cymru i gyd ar unwaith yn llawer mwy credadwy."*

> *"Roedd popeth am y daith hon yn werthfawr. Dysgais gymaint am bob prifysgol a rhaglenni penodol y gwnaethom eu harchwilio'n fanwl. Roeddwn hefyd wir yn teimlo cysylltiad â Chymru fel gwlad. Rwyf wedi treulio llawer o amser yn Lloegr*

*a'r Alban, ac maent yn wahanol i'w gilydd, ond rwy'n gweld nawr pa mor unigryw yw Cymru hefyd. Gwlad hardd gyda phobl hardd. Rwyf eisoes wedi siarad â dau fyfyriwr a fyddai, yn fy marn i, yn ddelfrydol ar gyfer dwy o brifysgolion Cymru, un yr ymwelais â hi ac un y dysgais amdani yn y ffair ddydd Llun."*